

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Gorffennaf
19deg 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council meeting held on 19th July 2017 at
7.30pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd/ Chairperson), Maldwyn Williams, Hanna Elin Hughes, Maldwyn Williams, Myrddin Roberts, Miriam Williams, Alwena Roberts a Geraint Parry (Clerc/Clerk)

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Alun Roberts, Barbara Williams

3. Datgan Ddiddordeb/Declaration of interest

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb / *There were no declaration of interest*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Fehefin fel rhai cywir gan Maldwyn Williams, eilwyd gan Hanna Hughes / *Minutes of the previous meeting held on 21st June were accepted as accurate by Maldwyn Williams, seconded by Hanna Hughes.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Diffibrilwyr / Defibrillators** - Trafodwyd y sefyllfa bresennol a phenderfynwyd symud y diffibriliwr i'r Owain Glyndŵr ac i hysbysebu ei lleoliad. Esboniodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach ynghylch mabwysiadu'r Ciosg gan yr adran Cynllunio / *Discussed the present situation, and it was decided to move the defibrillator to the Owain Glyndwr and advertise its location. Clerk explained that he has not received any further information regarding the adoption of the Kiosk from the Planning department.*
- 5.2 **Lôn Glanrhyd / Glanrhyd Lane** - Arwyddion "Anaddas i Gerbydau Llydan" - penderfynwyd gadael yr arwydd ger Erw Gain a monitro sefyllfa. / *Signs "Unsuitable for wide vehicles" - It was decided to leave the sign by Erw Gain and monitor the situation.*
- 5.3 **Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** - Penderfynwyd nid bod y gwaith a wnaed gan y cwmni yn ddiweddar yn foddhaol. Clerc i gysylltu â'r cwmni i gwblhau'r gwaith / *It was decided that the work recently carried recently by the company was unsatisfactory. Clerk to contact the company to complete the work*
- 5.4 **Lôn Hafoty, Tyllau ar lonydd lleol / Hafoty Road, Holes on local roads** - Esboniodd y Clerc yr ymateb gan yr adran Briffyrdd i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r lleoliad y cyfarpar ar gyfer yr arolwg. Dilyn canlyniadau'r arolwg, penderfynwyd yn unffrydol i ysgrifennu eto at Adran Briffyrdd a gofyn iddynt ailystyried. / *Clerk explained the response by the Highways department of the methodology used and location of the equipment used for the survey. Following the results of the survey it was unanimously decided to write again to the Highways department and ask them to reconsider.*
- 5.5 **Llwybr Tai Bach / Tai Bach Footpath** - Disgwyl canlyniad gan yr Arolygaeth / *Awaiting the outcome by the inspectorate.*
- 5.6 **Ymgynghoriad Ysgolion Ward Seiriol** - mynychodd Cyng. R Hughes, H Hughes, B Williams ac M Roberts y cyfarfod yn Neuadd y Dref Biwmares ar 13/07. Nodwyd yn y cyfarfod bod rhaid i'r Cyngor Sir ymgynghori fwy trwyadl gyda phawb ac nid y cymryd i ystyriaeth y llefydd gwag yn yr Ysgolion. Nodwyd hefyd, yn ystod cyfarfod yn y Cyngor Sir, ddaru uwch swyddog gwneud datganiad anghywir ynglŷn ar fater yma. / *Clr. R Hughes and M Roberts attended a meeting at the Town Hall Beaumaris on 13/07. It was noted that the County Council must thoroughly consult with all concerned and that empty school places are not to be taken into consideration. It was also noted that during a meeting at the County Council an inaccurate statement had been made by a senior office regarding this matter.*
- 5.7 Dilyn ymgynghoriad Gwasanaeth Bysiau 53/57/58 oedd wedi cau ar 23/06/17, ychydig iawn o ymatebion oedd wedi dod i law. Felly mae'r Cyngor Sir wedi trefnu sesiwn galw heibio yn Canolfan Cymuned Maes Gwyn ar 27/07 rhwng 13:00 a 14:00 / *Following the recent Bus service 53/57/58 consultation that closed on 23/06/17, very few responses had been received. The County Council have now arranged a drop in session at the Community Hub at Maes Gwyn on the 27/07 at 13:00 and 14:00.*

6. Adroddiad gan y Cyngorwyr/Report by the County Councillors

Dim Cyngorwyrdd Sir yn bresennol / *No County Councillor present*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

Dim cais cynllunio i drafod / *No planning application to discuss*

8. Fynwent Llaniestyn / Llaniestyn Cemetery

Trafodwyd costau claddu drwy gymharu â mynwentydd lleol eraill ar angen trefnu gwaith cynnal a chadw. Angen trafod ymhellach. Clerc yn ystyried yr angen creu rheolau ar gyfer y fynwent a gofyn i'r Cyngor Sir am bin / *Discussed the burying costs by comparing to other local cemeteries and the need to arrange maintenance work. Further discussion to take place. Clerk also mentioned the need to create regulations for the cemetery and to request a bin by from the County Council.*

9. Tir Comin/Common Land

9.1 Glyndŵr (Cae Lili) (02/17) Hawddfrait - disgwyl gwybodaeth bellach gan gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran Cae Lili / *Easement - awaiting further information from the solicitor acting on behalf of Cae Lili.*

9.2 Gwelwyd bod y tir comin o gylch y pentre' yn gordyfu eto ac mae'r llwybrau troed yn tyfu'n wyllt / *It was noticed that the common land around the village is overgrown and the footpaths are overgrown*

9.3 Comin Llaniestyn / *Llaniestyn Common Land* (01/17) - cytunwyd i ddilyn i fyny'r hawddfrait y beipen dwr a osodwyd ar draws y comin tuag at badog Tŷ Ben. Penderfynwyd anfon llythyr eto at berchennog y padog. Disgwyl gwybodaeth bellach oddi wrth Swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru. Cadeirydd i ddilyn y mater i fyny. / *It was agreed to follow up the easement regarding the water pipe installed across the common towards the paddock at Tŷ Ben. It was decided to send another letter to the owner of the paddock. Awaiting further communication from the Officer from Natural Resources Wales. Chairperson to follow up on the matter.*

9.4 Tir Comin ger Pensarn / *Common Land by Pensarn* - Derbyniwyd hysbysiad bod 1 Pensarn ar werth a bod y perchennog angen sortio'r mater o hawddfrait o gylch yr eiddo / *Received notification that 1 Pensarn is for sale and the owner urgently needs to address the issue of easement around the property.*

9.5 Cyng. Maldwyn Williams yn adrodd bod y Cyngor Sir wedi agor draen ger Glyndŵr. Darn yma yn dir comin. Clerc i drafod y mater gydag adran Priffyrdd / *Clr. Maldwyn Williams reported that the County Council has opened a drain by Glyndŵr. This this common land, Clerk to discuss the matter with the Highways department.*

9.6 Clerc wedi cysylltu â deiliad Tre Gof er mwyn cael symud y cerrig sydd wedi ei lleoli ar y tir comin. Penderfynwyd anfon llythyr arall a rhoi amser penodol iddynt symud y cerrig, os ddim bydd trefniadau'n cael ei wneud i'w symud gan y Cyngor Cymuned. / *Clerk has contacted the householder of Tre Gof in order to move the stones located on common land. It was resolved to send another letter and give them a specific time to move the stones, if not arrangements will be made for them to be moved by the Community Council.*

10. Swyddog Cynllunio Rhanbarthol / Regional Planning Officer

Eilwen Jones (Gwasanaeth Cynllunio Rhanbarthol) - esboniodd fod Llanddona ei ddewis i gymryd rhan mewn prosiect peilot o 6 ardal yn dilyn canlyniad arolwg a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Cefnogir y prosiect gan bob un awdurdod lleol yn yr ardal ac yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir Flint. Nod y prosiect yw codi ymwyddiaeth o sut i alluogi cymunedau i for yn fwy gwydn mewn argyfwng. Er mwyn symud ymlaen, fyddai'r i'r Cyngor Cymuned i gymryd yr awenau ac efallai cael grŵp gorchwyl a gorffen i ymgymryd â'r prosiect hwn ac i wahodd sefydliadau eraill yr ardal i gymryd rhan yn hyn. Cafodd dogfennau ei adael gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen / *Eilwen Jones (Regional Planning Service) - explained that Llanddona was selected to take part in a pilot project of 6 areas following on from the result of a survey that was carried out earlier in the year. The project is supported by each of the local authorities in the area and is hosted by Flintshire Council. The aim of the project is to raise awareness of how to allow communities to become more resilient in an emergency. The ideal way forward, would be for the Community Council to take the lead and perhaps have a task and finish group to undertake this project and invite other organisations in the area to engage in this. Documentation was left with the Community Council in order to decide the way forward.*

11. Cwlwm Seiriol

Simon Hunt (Swyddog Coed Cymru) a Carys Guile (Swyddog Menter Môn) - derbyniwyd trosolwg i gefndir y cais llwyddiannus trwy grant Loteri Fawr "Creu eich Gofod", gwerth £1.1m. Bydd hyn yn cynnwys rheoli'r gwarchodfeydd Natur Llangoed, Llanddona a Llandegfan dros y 7 mlynedd gydol y prosiect. Bydd hyn yn darparu budd-daliadau a hyfforddiant iechyd i'r cyhoedd.

Bwriedir i greu grŵp llywio lleol i yrru'r prosiect yn ei flaen. Wrth i'r prosiect datblygu, gall arian pellach dod o ffurfliau eraill i gynnal y gwaith / *Received an overview to the background of the successful Big Lottery Grant application - "Create your Space", worth £1.1m. This will include the management of the Nature Reserves in Llangoed, Llanddona and Llandegfan during the 7 year duration of the project. This will provide health benefits and training to the public. It is proposed to create a local steering group to drive the project forward. As the project develops, further funding can be sourced from other streams to maintain the work.*

12.Cyfrifon/Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- WO Jones - £78.00
- Playsafety Ltd - £79.80

Clerc yn egluro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer chwarter 1 / *Clerk discussed the income and expenditure against the budget for the 1st quarter.*

Awdit 2016/17 / Audit 2016/17 - Esboniodd y Clerc bod 4 cwestiwn wedi codi gan yr archwilwyr allanol yn rhan ein ffurflen flynyddol 2016/17, sydd wedi cael eu gweithredu / *Clerk explained that 4 questions have been raised by the external auditors in regards to our annual return 2016/17, and have been actioned.*

- > Angen copi o ffurflen asesiad / *require a copy of the risk assessment*
- > Angen copi o'n cyllideb i gefnogi'r praesept / *copy of our budget in support of the precept*
- > Esboniad ynghylch y cynnydd yn ein hasedau / *Explanation regarding the increase in our assets*
- > Cadarnhau fod ein datganiadau archwiliedig wedi cael ei gosod ar ein gwefan / *Confirm that our Audited statements are placed on our website*

13.Gohebiaeth/Correspondence

- E-bost Cyngor Sir – Iaith Cymraeg / *E-mail County Council – Welsh Language*
- E-bost Cyng C Jones / *E-mail – Clr. C Jones*
- E-bost / *E-mail* - BDO Awdit 2016/17
- Llythyr Cyngor Sir / *Letter County Council*

14. UFA/AOB:

- 14.1 Awgrymwyd os bydd Cynghorydd Sir y Ward ddim yn gallu fod yn bresennol yn ein cyfarfod misol, dylai'r Cynghorydd eraill mynychu / *It was suggested that if the appointed County Councillor of the Ward is unable to attend our monthly meeting, then another Councillor should attend.*
- 14.2 Fynychwyd Cyng. R Hughes ac M Roberts y cyfarfod diweddar ynglŷn ag Ymgynghoriad Ysgolion lleol / *The recent School Consultation meeting was attended by Clr's M Roberts and R Hughes*
- 14.3 Penderfynwyd yn unfrydol bod unrhyw lythyr a anfonwn at y Cyngor Sir, mae rhaid anfon copi at ein Cynghorwyr Sir / *It was unanimously decided that any letter we send to the County Council, that a copy must be sent to our County Councillors.*
- 14.4 Giât ar lwybr ger Tŷ Newydd wedi cloi / *Gate on the footpath by Tŷ Newydd has been locked.*
- 14.5 Cyng. Maldwyn Williams – angen torri'r canghennau ger y gyffordd T yn Llansadwrn ger Y Bryn / *Clr. Maldwyn Williams - need to cut the branches near the T junction at Llansadwrn by Y Bryn*
- 14.6 Cyng. M Roberts wedi derbyn cwyn ynghylch cyflwr y llwybrau troed o Tyddyn Uchaf tuag at Eglwys Llaniestyn a hefyd o Tyddyn Isaf tuag at wylod Bod Feddau, gan fod y marcwyr ffordd wedi ei guddio yn y gordyfiant / *Clr. M Roberts received a complaint regarding the condition of the footpaths from Tyddyn Uchaf towards LLaniestyn Church and also from Tyddyn Isaf towards the bottom of Bod Feddau, and that the way markers are hidden in the overgrowth*
- 14.7 Ochr y ffordd ger Ty Mawr yn torri i fyny / *Side of the road by Ty Mawr is breaking up*
- 14.8 Sgip ail-gylchu ger yr Hen Ysgol wedi cael ei symud / *The recycling container by the school has been removed*
- 14.9 Cwmni Hogans wedi parcio peiriannau trwm ar Comin Llaniestyn a difrodi'r tir / *Hogan's have parked heavy machinery on Llaniestyn Common and damaged the land.*
- 14.10 Mae'r Cyngor Sir yn gofyn i bob Cyngor Dref a Chymuned i enwebu hyrwyddwr iaith Cymraeg er mwyn integreiddio siaradwyr nad ydynt yn Gymraeg mewn cyfarfodydd, lleisio barn ar geisiadau cynllunio a hyrwyddo'r Gymraeg yn ei hardal / *The County Council request the each Town and Community Council nominate a welsh Language champion in order to integrate*

the non Welsh Speakers in meetings, voice an opinion on planning applications and promote Welsh in our area.

14.11 Cyfarfod Ymgynghori Llyfrgelloedd yn cael ei gynnal yn Neuadd Bentref Llanddona 20/07/17 am 6 o'r gloch / *Libraries Consultation meeting is to be held at Llanddona Village Hall 20/07/17 at 6pm*

15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 10.20 o'r gloch. Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 17/08/17 am 7.30 yn Capel Peniel.

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 10.20pm. Next meeting to be held on 17/08/17 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad